

## PWYLLGOR PERSONEL

### 04 Mehefin 2019

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)  
Mr A Archer (dirprwyo ar ran Mrs J James), Cynghorydd Mrs D  
Clements, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd  
M Williams (yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd A Wilcox) a'r  
Cynghorydd S Yelland.

Roedd y Cynghorydd R Owens hefyd yn bresennol fel yr  
awdurdodwyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod ar  
20 Mawrth 2019.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 9.00a.m. – 4.05p.m.)

#### 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd M  
Evans, Mrs J James a'r Cynghorydd A Wilcox.

#### 2. Datgan Buddiannau

Roedd pob Aelod wedi datgan buddiant personol i'r graddau eu bod yn  
adnabod ambell un o'r ymgeiswyr yn rhinwedd eu gwaith. Serch hynny barnent  
na fyddai hynny yn rhagfarnu eu penderfyniad.

#### 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2019 i'w cadarnhau  
a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar  
15 Mai 2019.

#### 4. Eithrio'r cyhoedd

**PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem  
ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i  
diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol  
1972.

#### 5. Penodi Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc

Roedd y Pwyllgor wedi cyfwrdd chwech ymgeisydd am y swydd Cyfarwyddwr  
Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc.

**PENDERFYNWYD** penodi Mrs N Gandy yn Gyfarwyddwr Cynllunio a  
Chyfarwyddyd y Parc.

